


## Beth am natur a bywyd gwyllt?

Planhigyn pwysig yn yr amgylchedd ucheldirol hwn yw'r grug, a welir yn ei wisg borffor yn yr haf ochr yn ochr â'r eithin uwchben. Yn wahanol i natur amlennol yr eithin, mae grug yn tyfu gyda strwythur oedran anwastad sy'n bwysig oherwydd ei fod yn darparu cynefin ar gyfer gwahanol rywogaethau o fywyd gwyllt. Mae'r strwythur oedran anwastad yn cael ei greu gan fodau dynol, yn draddodiadol trwy losgi. Gall adar y Carneddau, sy'n hoff o nythu ymhlith yr eithin a'r grug, fel clochdar y cerrig, llinosiaid, drywod a'r pibyddion, chwilota yn y mannau agored hyn yn agos at eu tiriogaethau magu. Mae'r defaid pori a merlod y Carneddau yn cadw'r rhostir a'r glaswelltir ucheldirol hwn dan reolaeth ac yn cadw'r anifeiliaid di-asgwrn cefn sydd yn y tail yn hapus, sydd yn eu tro yn ffynhonnell fwyd arall ar gyfer yr adar sy'n nythu ac y frân goesgoch. Chwiliwch rhwng y llafnau ac efallai y byddwch hefyd yn dod ar draws amrywiaeth o ffyngau cwyr yn tyfu yn yr amgylchedd ucheldirol sensitif hwn.

Tra'n darparu llawer o fanteision i fywyd gwyllt, mae'r amgylcheddau hynny lle mae'r eithin fwyaf amlwg yn lleihau'r nifer o ficro gynefinoedd sydd ar gael. Er mwyn lleihau'r effaith ar adar sy'n magu, mae'r eithin yn cael ei glirio y tu allan i'r prif dymor nythu adar sy'n rhedeg o ddiwedd mis Mawrth i fis Medi.

Nod y gweithgareddau hyn yw codi ymwybyddiaeth o gadwraeth archeolegol a naturiol y Carneddau trwy ddadorchuddio henebion archeolegol cudd a chreu brithwaith o gynefinoedd er mwyn cefnogi mwy o fioamrywiaeth.

**Diolch am eich amser a'ch ymdrech drwy gymryd rhan mewn cadwraeth yn uniongyrchol.**

Trwy wirfoddoli gyda ni rydych wedi cymryd rhan yng Nghynllun Partneriaeth Tirwedd Y Carneddau trwy ddarganfod, gwarchod a dathlu'r Carneddau.


**Am rhagor o wybodaeth, cyflaeoedd gwirfoddoli eraill, neu I cysylltu gyda'r tîm, ebostiwch**

carneddau@eryri.llyw.cymru

Cymdeithas Eryri Snowdonia Society · Cadw · Partneriaeth Tirwedd y Carneddau Landscape Partnership · Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust · RSPB Cymru · Cronfa Treftadaeth · Heritage Fund


## Be' rydym yn ei wneud a pham?

Rydym yn clirio eithin sy'n effeithio ar weddillion archeolegol pwysig. Mae gwreiddiau eithin yn gedru gwthio nodweddion cerrig oddi wrth ei gilydd. Gan fod unrhyw weddillion archeolegol yn debygol o fod dim ond ychydig o dan yr wyneb maent yn niweidiadwy i ddifrod pellach gan y gwreiddiau. Mae tynnu'r eithin yn atal y difrod pellach yma. Maent hefyd yn gwneud i'r nodweddion archeolegol hawdd i bawb weld ac yn galluogi dealltwriaeth well, er enghraifft trwy arolwg ac ymchwiliad newydd.




*A sequence of images of the same settlement enclosure. From left to right: 2020 aerial photo © APCE-ENPA ; 2022 survey © University of Sheffield; lidar 2020 APCE-ENPA*

Mae data LiDAR ar gyfer y Cynllun Carneddau yn dangos cannoedd o nodweddion archeolegol o gwmpas Moel Faban mewn manylder newydd. Mae arolwg LiDAR yn fodel 3D o'r arwyneb tir wedi'i gwneud o filiynau o fesuriadau laser wedi'i dynnu o sganiwr o dan awyren. Gan ddefnyddio meddalwedd arbennig, caiff ei arddangos mewn gwahanol ffyrdd i ddatgelu nodweddion hyd yn oed pan maent yn ysgafn ac yn anodd iawn neu yn amhosib i'w weld ar y tir. Yn y strip o luniau uchod, mae'r llun LiDAR ar yr ochr dde yn dangos nifer fwy o lwyfannau tai crwn mewn lloc anheddiad ac roedd wedi'i recordio mewn arolwg archeolegol yn yr 1950au.







*Wrn o'r Oes Efydd gafodd ei ddarganfod yn ystod cloddiadau hynafiaethol o ddwy garnedd ar gopa Moel Faban yn 1870, o adroddiad A.L.Fox yn y Journal of the Ethnological Society 1870.*




# Prosiect clirio llystyfiant.

# Moel Faban.

## Beth sydd yma?

Lleolir Moel Faban ar lethrau'r Carneddau yn ardal Llanllechid ac mae'n edrych ar draws Bethesda tuag at Ynys Môn a thu hwnt. Daw ei enw o'r diffiniad Cymraeg o *Moel*, sy'n golygu bryn diffrwyth heb lawer o lystyfiant heblaw grug, eithin ayyb., a *Faban*, unigolyn lleol a fu unwaith yn berchen neu'n ffermio'r tir.

Mae olion archeolegol ar Foel Faban yn adrodd stori ar sut roedd pobl wedi byw a siapio'r dirwedd. Mae yna garneddau cloddedig 4000 mlwydd oed o'r Oes Efydd ar gopa ac ystlysau'r mynydd. Yn wreiddiol, roedd yr olion gyda phroffil cromennog gan fod twmpathau crwn o gerrig maen nhw, nifer yn enfawr ac yn weladwy o bell i ffwrdd fel y rheini ar y crib, ac eraill yn llai ac yn fwy anodd ei ddarganfod. Mae'r rhain yn llefydd sanctaidd wedi'u nodi.

Roedd y mathau hyn o gladdedigaethau ar Foel Faban yn fannau ymarfer ar gyfer amlosgi a choleddu. Roedd yr amlosgiadau yn aml yn cael eu gosod mewn yrnau seramig, yn debyg i'r un plyg canol. Weithiau roedd gwrthrychau eraill megis offer, gemwaith ac arfau yn cael eu claddu gyda'r ymadawedig. Mae nifer o'r carneddau Oes Efydd ar Foel Faban wedi'u haflonyddu gan ymchwilwyr trysorau canrifoedd yn nôl neu ar gyfer creu llochesi.

O gwmpas 2,500 i 1,500 flynyddoedd yn nôl (Oes yr Efydd i mewn i'r cyfnod Rhufeinig), roedd nifer o anheddau tai crwn ar lethrau o gwmpas y Foel. Roedd rhai wedi'i diogelu gan gloddiau a ffosydd. Roedd eraill wedi'i gwasgaru o amgylch caeau o siapiau anaml. Mae ffiniau o'r caeau yma yn goroesi fel llinellodd o glogfeini a chloddiau isel a'r tai fel pantiau crwn neu seiliau waliau. Does neb yn byw ynddo heddiw, ond roedd yr aneddiadau hynafol yn debyg o gael ei ddefnyddio dros gydol y flwyddyn.

Partneriaeth Tirwedd y Carneddau Landscape Partnership

eryri.llyw.cymru/carneddau